
# LLAFAR BRO

PAPUR MISOL CYLCH 'STINIOG

Ieuanc a Hen Ddarlleno o Leufer Brwd 'Lafar Bro'

GORFFENNAF/AWST 2020 • rhif 496 • RHIFYN DIGIDOL

Un o luniau Gwilym Arthur, wedi'i dynnu'n ddiweddar yn ei ardd yn Rhydsarn. Mae'r gylfinbraff yn aderyn prin yng Nghymru, a'i big tew yn rhan amlwg o'i wedd – mae pendew yn enw arall arno. Mae'r pig mor gryf, mae'n medru torri cerrig ceirios er mwyn mynd at y cnewyllyn tu mewn. Mae Gwilym a Meryl wedi bod yn rhannu llawer o luniau ar grŵp Gweplyfr/Facebook Cymuned Llên Natur – ewch am sbec i weld cyfres o luniau gwych o nadroedd ac adar ac ati yn eu gardd ac ar lethrau Bro Ffestiniog. "Dim ond hanner yr ardd sydd ar ein cyfer ni 'sti" meddai Gwilym yn ei frwdfrydedd nodweddiadol, "y bywyd gwyllt sy' pia'r hanner arall". www.facebook.com/groups/CymunedLlenNatur/

LLUN: GWILYM ARTHUR

## Pellter Cymdeithasol Hen Ffasiwn

Wrth ymchwilio i'w gyfres *Stiniog o'r Wasg Erstalwm*, daeth ein colofnydd, Vivian Parry Williams ar draws yr hanesyn difyr a pherthnasol yma:

Yn rhifyn 13 Chwefror 1900 o'r *Genedl Gymreig*, dan bennawd 'Helynt y Clefydau Heintus yn Ffestiniog', gwelir adroddiad sy'n ein hatgoffa, i raddau, o'r hyn sy'n digwydd y dyddiau hyn. Roedd y geiriau a nodwyd yn yr adroddiad yn newyddion llwyr i mi. Ymddengys i'r Cyngor Dinesig lleol ar y pryd gyflwyno deddf rywdro yn ymwneud â gwaharddiad ar ddinasyddion yr ardal rhag dod i gysylltiad â rhywun oedd yn diodde' gyda heintiau a ystyriwyd yn farwol ar y pryd.

Roedd dau ŵr, David Jones, 100, Cellar, Blaenau Ffestiniog a John Parry, Tŷ Pren, Pen y Bryn, Bethania yn ymddangos o flaen yr Ynadon ar y Fainc ar gyhuddiad o gymysgu'n anghyfreithlon gyda dau glaf, un oedd yn diodde' o ddifftheria, a'r llall o dân iddwf (*erysipelas*). Gohiriwyd yr achos cyntaf *"er mwyn cael ychwaneg o oleuni meddygol ar y ddau achos"*, chwedl y gohebydd. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, ymddangosodd y ddau droseddwr honedig o flaen yr ynadon eto, a'r tro hwn rhoddwyd tystiolaeth gan dri meddyg lleol, Dr H.O.Jones, Dr R.D.Evans a Dr Richard Jones. Wedi cryn drafod ar y mater, penderfynwyd taflu'r achos allan, a dywedodd y cadeirydd, W. Davies eu bod yn gwneud hynny *"am fod tystiolaethau'r meddygon yn groes i'w gilydd"*.

A ninnau'n teimlo'n rhwystredig y dyddiau hyn gyda'r amrywiol rybuddion i ni gadw at reolau'r *lockdown*, megis cadw'r pellter cymdeithasol o ddwy fedr, a pheidio teithio'n bellach na phum milltir o'n cartrefi. Ychydig wyddwn, na neb arall dybiwn i, bod rheolau llym yn bodoli'n 'Stiniog dros ganrif yn ôl i geisio atal lledaenu clefydau heintus!

## Canolfan Ailgylchu

Er gorfod aros yn hirach na thrigolion ardaloedd eraill yng Ngwynedd, mae'r ganolfan ailgylchu bellach yn agored ar ddyddiau Gwener a Sadwrn, o 9 tan 4. Rhaid i chi gysylltu o flaen llaw er mwyn archebu dyddiad ac amser i fynd yno. Mae canolfannau Caernarfon, Bangor, Dolgellau, Harlech, Pwllheli, ac hyd yn oed Garndolbenmaen sy' ynghanol nunlla, ar agor am bump diwnod yr wythnos cofiwch! Dim ond yn y ddau gynta mae poblogaeth uwch na'r Blaenau. Mae isio 'mynadd oes wir. Serch hynny, mae'n dda cael y cyfleuster eto, a diolch i'r staff sydd yno am eu cyngor a'u cymorth.

### YN Y RHIFYN HWN .........

**Lluniau arbennig; Stolpia; Stiniog o'r Wasg Erstalwm; a llawer iawn mwy**

### DYDDIADAU PWYSIG .........

Dyddiad olaf derbyn deunydd rhifyn **Medi** fydd **dydd Gwener, 28 Awst**

### PWYLLGOR LLAFAR BRO .....

**Gwyliwch ein cyfryngau cymdeithasol am fanylion, mewn gobaith y bydd y sefyllfa wedi gwella ...**


**NODDWCH rifyn o Llafar Bro!**

Hoffech chi weld enw eich cwmni yn fan hyn? ac erthygl tu mewn? Cysylltwch â'r swyddog hysbysebu am fanylion

# LLAFAR BRO

Papur Bro Cylch Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog, Llan, Manod, Tanygrisiau, Rhiw a Glanypwll, Trawsfynydd, Maentwrog a Gellilydan

http://llafar-bro.blogspot.co.uk

www.facebook.com/LlafarBro


### SWYDDOGION

**CADEIRYDD:**
Paul Williams,
Neigwl, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog
☎ 01766 830457 **ebost**: wilias@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Shian Jones, 4 Ffordd Benar,
Blaenau Ffestiniog LL41 3UU
☎ 01766 830549 **ebost**: shian.jones@yahoo.com

**IS-YSGRIFENNYDD:**
Vivian Parry Williams, 7 Trem y Fron,
Blaenau Ffestiniog LL41 3DP ☎ 01766 831814
**ebost**: vivian.williams@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Sandra Lewis, Bryn Bela, Ffordd Barwn,
Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3UG
☎ 01766 831539 **ebost**: sandralewis62@icloud.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
**Glyn Daniels, 66 Fron Fawr,**
**Blaenau Ffestiniog LL41 3YD ☎ 07731 605557**
**ebost:cynghorydd.glyndaniels@gwynedd.llyw.cymru**

**DOSBARTHWR:**
Emyr Jones, Noddfa, Llan Ffestiniog LL41 4NN
☎ 01766 762582

**IS-DDOSBARTHWYR A DOSBARTHWYR DRWY'R POST:**
Brian Rushworth a Maldwyn Williams

**FFOTOGRAFFYDD**
Alwyn Jones ☎ 01766 830291

### TEIPYDDESAU
Heddus Williams, Glesryn, Glynllifon, Blaenau.
Eira Kirkman, 1 Bryn Gwynedd, Rhiwbryfdir

### TAPIAU I'R DEILLION
Nan Rowlands, Y Glyn, Llan. ☎ 762492
Gweithredir gynllun Tapiau i'r Deillion yn annibynol o *Llafar Bro*.


## HYSBYSEBION

Prisiau hysbysebu yn *Llafar Bro* fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **A** | lled colofn x 4 cm | £7 y mis |
| **B** | lled colofn x 6 cm | £9 y mis |
| **C** | lled colofn x 9 cm | £10 y mis |
| **CH** | lled dwy golofn x 6cm | £15 y mis |
| **D** | chwarter tudalen | £21 y mis |

**Cynnwys ffurflen efo'r papur 800 – £40**

## EITEMAU HWYR

Bydd eitemau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.
Sylwer os gwelwch yn dda ar ddyddiadau'r mis ar y dudalen flaen.


Nid yw Cymdeithas *Llafar Bro*, na'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â chynnwys yr erthyglau a'r deunydd a ddaw i mewn, ac ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am y cynnwys.


## Smit Newyddion

Mae'n draddodiad yn y byd newyddiaduraeth bod yr haf yn gyfnod distaw, pan mae'r gwleidyddion ar eu gwyliau aballu. Dyma'r silly season bondigrybwyll; tymor y straeon gwirion er mwyn llenwi tudalennau a thynnu sylw'r darllenwyr pan mae llai o newyddion go iawn i'w adrodd. Tydw i ddim o reidrwydd yn awgrymu bod llawer o newyddiaduraeth yn y papurau bro cofiwch. Gan fod pawb sy'n gwneud stem o waith ar ran *Llafar Bro* yn wirfoddolwyr, does gennym ni mo'r gallu i dreulio dyddiauyn mynd ar ôl 'stori' a datgelu anghyfiawnder a sgandals aballu.

Yn nyddiau gofid covid, mae'r newyddion am unrhyw beth ond y feirws mor brin a chwys fforddoliwr, chadal yr hen chwarelwyr. Mae'n smit ar bawb! Tydi'r cymdeithasau ddim yn cyfarfod, does yna ddim chwaraeon, ac mae ein rhwydweithiau arferol o ddanfon cyfarchion ar bapur i'r gohebwyr lleol ac yna i'r teipyddesau ar stop dros dro hefyd.

Un maes oedd y papurau bro yn rhagori ynddo ers talwm oedd newyddion cymunedol a chyfarchion teuluol. Ond beryg fod *facebook* wedi rhoi'r farwol i hynny! Ugain mlynedd yn ôl, roedd pobl wrth eu bodd yn gweld enwau eu hanwyliaid yn *Llafar Bro*, ac yn torri darn allan o'r papur i'w gadw. Heddiw, does dim raid i neb aros mis nes daw'r rhifyn nesa' allan –gall bawb roi cyfarchiad ar *facebook* mewn eiliadau, a derbyn ymateb gan ddwsinau o bobl o fewn munud neu ddau! Mae'r un peth yn wir am hen luniau. Ddegawd yn ôl, os oedd rhywun yn canfod hen lun, roedden nhw'n ei yrru at *Llafar Bro* i holi am enwau a hanesion. Heddiw, ar y cyfan, grwpiau *facebook* ydi'r lle i rannu a thrafod hen luniau. Iawn de; pawb at y peth y bo. Dwi ddim am feirniadu. Mae lle i bob math o gyfryngau yn ein bywydau ni bellach.

Daeth dipyn llai na'r arfer o ddeunydd i mewn ar gyfer y rhifyn yma yn sicr, ond gan fod y cynnwys mor ddiddorol dwi'n mawr obeithio y byddwch i gyd yn mwynhau'r rhifyn digidol yma eto.

Diolch o galon i'r cymwynaswyr sydd wedi cyfrannu'n hael at gostau cyhoeddi'r rhifyn yma, trwy noddi tudalennau. Diolch i chi Andrew, Marian, Bruce, Jaci, Barbara, Suzie, a Les am helpu eich papur bro. Mae eraill wedi dweud eu bod yn fodlon noddi tudalen –diolch i chithau. Cofiwch gysylltu efo Sandra ein trysorydd trefnus i ni fedru cofnodi'r rhoddion yn gywir. Mae haelioni pobol 'Stiniog bob tro yn wirioneddol wych ac yn codi calon. Mae'n golygu ein bod yn medru parhau i gyhoeddi bob mis, ar gyfnod pan nad oes arian gwerthiant na hysbysebu yn dod i mewn.

Mi ddaw pethau'n haws dwi'n siŵr; bob yn ail mae dail yn tyfu, yn'de, ond mae'n anodd gwybod i sicrwydd os byddwn yn medru dychwelyd – o'r diwedd – at argraffiad papur erbyn y rhifyn nesa' ym mis Medi. Does ond heddiw tan yfory, a 'fory tan y ffair...

Gadewch i ni wybod beth hoffech chi weld yn y rhifynnau nesa'; rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth. Beth am ymateb i gais ein colofnwyr am wybodaeth pellach? Dewch a'r drol yn nes at y doman, trwy yrru eich newyddion a'ch cyfarchion atom hefyd, fel nad ydym yn methu dim byd! Yn ycyfamser gyfeillion, daliwch i gredu!

***Paul***

### NODDWYR Y RHIFYN HWN

| | |
|---|---|
| **Er cof am Karen £100** | **Marian Ellis £32** |
| **Bruce Griffiths £16** | **Jaci Parsons £10** |
| **Barbara Bristow £10** | **Ystâd Plas Meini £16** |
| **Les Darbyshire £16** | **Di-enw £16** |

**Gwefannau allanol**
Mae ambell ddolen yn y rhifyn yma at wefannau allanol, er gwybodaeth i'n darllenwyr. Nid *Llafar Bro* sy'n gyfrifol am eu cynnwys ac ni allwn reoli yr hyn sy'n ymddangos ynddynt.

**Twyllwyr**
Mae twyllwyr ar y we yn glyfar, ac fel llawer o gymdeithasau a chwmniau eraill, maen nhw'n trio dynwarad *Llafar Bro* weithiau. Mae un o'n darllenwyr wedi cael neges e-bost sy'n ymddangos fel tasa fo ynglyn â'r papur. COFIWCH:

> Fydd *Llafar Bro* byth yn gyrru neges atoch yn Saesneg!
> Os nad ydych yn 'nabod y gyrrwr, peidiwch ag agor unrhyw atodiad a pheidiwch a chlicio unrhyw ddolenni.
> Rhowch y neges yn y ffoldar sbam, a blociwch y gyrrwr os medrwch.

Ond yn bwysicach na dim, peidiwch a phoeni'n ormodol. Gallwn guro'r twyllwyr efo ychydig o ofal a defnydd call o'r we.

## Gwefan Llafar Bro

Erbyn hyn, mae bron i 800 o erthyglau ar ein gwefan, yn gymysgedd o ddarnau nodwedd diweddar, i hen ddeunydd o'r archif.

Yno hefyd mae manylion tanysgrifio, hysbysebu, dyddiadau cau, pwy sy'n golygu, a llawer mwy. Ewch draw am sbec i www.llafar-bro.blogspot.com

Gallwch ddilyn hynt a helynt eich papur bro ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Rydym ar facebook a twitter, dan @LlafarBro ac yn diweddaru yn rheolaidd, efo dolenni at erthyglau am gelf, mynyddoedd, glaw, enwau lleoedd, chwaraeon, hanes, a llawer iawn mwy.

Piciwch draw i ddarllen cyfoeth o erthyglau amrywiol.

**LLUNIAU A GDPR** — Ewch i'n gwefan i weld manylion gyrru lluniau atom, a sut mae *Llafar Bro* yn ymdrin â data personol – Diolch

# Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd

Ganwyd fy nhaid Griffith Parry yn Nantmor, pentre bychan ger Beddgelert, Tachwedd 15, 1866. Symudodd i Flaenau Ffestiniog i weithio yn y chwarel pan yn ŵr ifanc. ‘Roedd yn boblogaidd iawn fel bardd lleol a’i enw barddonol oedd Namor Wyn ar ôl Nantmor wrth gwrs. Cyfansoddodd llawer iawn o gerddi.

Priododd Barbara, un o ferched perchenog Y Meirion, gwesty ar y ffordd fawr, a ganwyd dau fab iddynt. Fy nhad, Richard Parry, oedd yr ieuengaf – tybed a oes rhywun yn ei gofio ef ? ‘Roedd yn ysgrifennydd yn yr ysbyty am flynyddoedd ac yn brysur iawn gyda’r *British Legion* yn gweithio yn galed i helpu gwragedd gweddw yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd. ‘Roedd pawb yn ei adnabod gan ei fod yn gloff ar ôl colli dwy goes, yn 19 oed, trwy rewi yn y ffosydd.

Yn ôl at y pwnc – roedd Griffith Parry yn ddyn hardd yr olwg yn ôl pob hanes – gwallt du cyrliog yn troi yn glaer wyn at ddiwedd ei oes. ‘Roedd yn enwog yn y Blaenau a’r ardal fel cyfansoddwr pennillion ar achlusurau bywyd. Fe fu farw ei wraig ar endigaeth fy nhad ac yn fuan wedyn symudodd i’r Rhondda yn ne Cymru i chwilio am waith yn y pyllau glo, fel wnaeth llawer i un. Aeth a’i fab hynaf, Gwilym, gydaf ef gan adael fy nhad yn fisoedd oed, yng ngofal y wraig a ddaeth a fo i’r byd. Cafodd fy nhad blentyndod hapus iawn. Bu farw Gwilym yn ifanc o St Vitus Dance.

Darganfodd hapusrwydd unwaith eto a priododd Gwen, athrawes o’r ardal. Ganwyd mab arall iddo, Cledwyn, a’i ferch Sian, yw’r unig gyfneither sydd gennyf. Roedd Griffith Parry in 77 oed yn marw yn 1943 o silicosis – fel wnaeth llawer iawn o ddynion ardaloedd y chwareli.

Ysgrifennodd Namor Wyn lawer iawn o benillion i bobl Stiniog a hefyd i drigolion y Rhondda, yn enwedig i bobl pentre Pen y Graig. Yn anffodus iawn, dim ond un gerdd sydd gyda ni fel teulu – Sian o Pen-y Graig – a Barbara, Menna ac Enid Mai o’r Blaenau. Mae’n siŵr o fod yn rhy hwyr i ddarganfod mwy o’i waith, ond hwyrach rywsut mae teulu yn Pen y Graig, neu Blaenau gyda cist o bapurau hen deulu ac yn ei plith hwyrach bydd enw – Namor Wyn.

Mi fyddem wrth ein bodd os ddaw rhywbeth i’r golwg.

***Barbara Bristow*** (nee Parry)
46 Pyecroft Rd, Warrinton, WA5 3NF
alanjbristow.com

Llongyfarchiadau gyda llaw, i chwi am weithio mor galed i gyfansoddi papur lleol mor dda. Diolch i chwi i gyd. 'Rwyf yn cofio *Y Rhedegydd* pan yn blentyn cyn gadael i weithio yn Llundain yn 1956. Cariwch ymlaen gyda'r gwaith rhyfeddol yma. Mae son am Blaenau yn codi hiraeth mawr arnaf - ond fela mae hi ! Cofion Gorau.

## Rhydd i bawb lais ac i bob llais ei lwyfan

Mae menter o Gellilydan – Theatr Gybolfa – wrthi’n paratoi elfen newydd sbon yn eu gweithgareddau, sef podlediad.

Rydym yn hynod gyffrous i ddatgelu y bydd ein podlediad newydd, *Siarad Gybolfa*, yn dod i’r wefan yn fuan iawn. Mae Becci wedi bod yn brysur yn cyfweld â rhai o bobl greadigol Cymru i holi sut mae bywyd wedi bod yn ystod ‘*lockdown*’.

Bydd y gyfres yn cynnwys amrywiaeth o gymeriadau, cawlach o bynciau, a malu awyr: siarad gybolfa! Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol, bydd mwy yn cael ei ddatgelu’n fuan.

Cynnig llwyfan i leisiau a syniadau yn y gymuned.

Ein nod yw i greu theatr a chelf, mewn cydweithrediad â thrigolion yng nghymunedau Cymru, sy’n hygyrch ac yn berthnasol i bawb; cynhyrchiadau theatr ar gyfer neuaddau pentref; prosiectau ffilmio a dogfennu; a chlwb ffilm a drama i blant.

Ydych chi eisiau bod yn rhan o’r sgwrs? Cysylltwch! **https://theatrgybolfa.wordpress.com/**

# ’Stiniog o’r Wasg Erstalwm

Tybed ai wedi cael gormod o gwrw cryf y Pengwern Arms oedd dau ŵr o Benmachno, a gollodd eu bywydau ar y ffordd adref o 'Stiniog, wrth iddynt ddisgyn i mewn i dwll chwarel Ffridd Blaen-y-cwm, a boddi mewn pwll o ddŵr ddeg llath yn y gwaelod. Cafwyd adroddiad o farwolaeth trist David Evans, gof, a Hugh Hughes, mab gweinidog y Wesleaid ym Mhenmachno, dau ŵr priod, yn y *North Wales Chronicle (NWC)* ar 8 Rhagfyr 1834.

Hysbysebion a ymddangosent yn rheolaidd oedd rhai oedd yn sôn am ocsiwns i osod tollbyrth ar ffyrdd tyrpeg yr ardal. Un o’r rhai cynharaf yn y wasg sy’n cyfeirio at yr ardal hon yw’r un yn y *NWC* ar 3 Chwefror 1835, yn dweud bod ocsiwn i’w gynnal ar bedair tollborth o fewn, neu’n agos at y cyffiniau hyn. Roedd hynny’n digwydd yn y Maentwrog Inn ar y 4 Mawrth 1835, rhwng dau a phump o’r gloch y p’nawn. Enwir pedair tollborth, Maentwrog, a gasglodd swm o £431 o dollau y flwyddyn cynt, Ffestiniog, (£80) *Carreg pen gyflin* (£36) a Thalsarnau (£32). Cyfeirir hefyd at ddwy dollborth ar y ffordd breifat, yr adeg hynny, o Dan-y-bwlch i Dremadog, sef *Caevalley* a Caegwyn oedd yn cael eu gosod ar ocsiwn am y pris uchaf. Byddai'r hysbysebion hyn yn ymddangos yn flynyddol, ac am wythnosau ar y tro, ym mhapurau newyddion y 19eg ganrif.

Achlysur pwysig iawn yn hanes 'Stiniog oedd agoriad swyddogol y Lein Fach, gan oruchwiliwr y cynllun, James Spooner, ar yr 20fed o Ebrill 1836, a chafwyd adroddiad llawn o'r achlysur yn y NWC ar 26 Ebrill 1836. Yn ôl pob golwg, roedd yn ddiwrnod cyffrous iawn, wrth i wagenni o lechi chwarel Holland gael eu llwytho, a'u hanfon bob cam i'r cei ym Mhorthmadog. Yn gwmni i'r llechi roedd sawl coets yn cario pwysigion y dydd, gyda chanans yn cael eu tanio ar hyd y siwrnai i'r Port. Wedi cyrraedd pen y daith, yr oedd cwmni'r rheilffordd wedi trefnu gwledd a 'chwrw da' ar gyfer y gwesteion a'r gweithwyr ar lawnt Morfa Lodge, cartref Spooner. Roedd seindorf o Gaernarfon wedi ei hurio i gyflenwi adloniant i'r dyrfa a oedd wedi dod yno i fwynhau'r achlysur hanesyddol hwnnw.

Gan ein bod yn trafod y lein fach, diddorol oedd darllen hanes achos cyfreithiol yn erbyn cwmni Rheilffordd Ffestiniog yn y *Manchester Times and Gazette* 19 Mawrth 1837, llai na blwyddyn wedi'r agoriad swyddogol uchod. Achos a ddygwyd gan weddw un John Smith, a benodwyd ar y dechrau i osod rhai o gledrau'r lein fach o'r Blaenau i Borthmadog. Wedi gwneud peth o'r gwaith, bu anghytundeb rhwng y contractor a'r cwmni, ac fe ddiswyddwyd Smith, a phenodi James Spooner i gwblhau'r gwaith. Canlyniad yr achos yn erbyn Rheilffordd Ffestiniog oedd i'r cwmni orfod talu iawndal o £5000 i weddw Smith, swm anferthol y cyfnod hwnnw. Diddorol hefyd oedd darllen rhan o'r adroddiad, sy'n cyfleu naws iaith y cyfnod yn glir.

*“The plaintiff's counsel were about to call witnesses, most of whom were stated to be wholly unable to speak the English language...”*

Cynhwysid adroddiadau o'r achos hwn mewn nifer o bapurau newyddion wythnosol y cyfnod, sydd yn profi pa mor ddylanwadol oedd y lein fach mor gynnar â 1837.

Ceir sôn am y *North and South Wales Bank* am y tro cyntaf mewn hysbyseb yn y *NWC* ar 29 Awst 1837, sydd yn brawf bod arian yn cylchdroi yn y plwyf yr adeg honno. Trafod talu allan difidend ar gyfranddaliadau yn y banc mae'r hysbyseb. Yn anffodus, ni enwir lleoliad y banc cynnar hwnnw, ond tybir mae yn y fan lle saif bwyty’r Chwarelwr heddiw (hen fanc y Midland/HSBC) oedd y safle. Ymddiheuraf am adael trefn gronolegol yr ysgrif hon, gan neidio saith mlynedd, i gyfeirio at ddigwyddiad a ellir ei ysytyried fel yr ymdrech o ladrad banc cyntaf 'Stiniog, cyn belled yn ôl â 18fed o Fai 1844. Adroddwyd yn y *NWC* 28 Mai 1844 am rywrai yn torri ffenest yn y banc a enwir uchod, ond yn cael eu styrbio ac yn gorfod dianc rhag eu dal, gan adael ysgol yn gorwedd yn erbyn wal y banc. *“They evidently were experienced thieves”* meddai'r gohebydd ar ddiwedd ei lith.

***Vivian Parry Williams***

# LLAN

Gohebydd: Nesta Evans (762495)

**Babi newydd:** Llongyfarchiadau i Elfyn a Siân ar ddod yn nain a taid, ers dydd Iau, Mehefin yr 11eg. Ganwyd merch fach o'r enw Casi Elfyn i Heledd a Gareth, ac rydym yn anfon ein cofion atynt ar yr achlysur hapus.

**Llongyfarchiadau** i Geraint a Gwenda ar fod yn hen daid a hen nain unwaith eto. Ac hefyd i Bobby ar fod yn hen daid i Casi Elfyn.

**Cydymdeimlad:** Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf ag Idris, Gwyrfai, Meirionna, a Gareth, a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth o golli eu mam Megan Mai Price, ar ddydd Sul Mehefin y 7fed. Cafodd Megan salwch blin ers misoedd a bu ei theulu â gofal mawr amdani yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd ei hedrych ar ei hôl yn arbennig ganddynt, ac hefyd gan y gofalwyr oedd yn edrych ar ei hôl. Bu Megan fyw yn Bryn Gwynant am 50 mlynedd ac yn gymydog i mi dros y cyfnod maith hwn, a bydd yn chwith ei cholli. Oherwydd y covid-19 bu raid dilyn y rheolau ond llwyddwyd i ffarwelio â Megan trwy gynnal gwasanaeth byr wrth ei chartref, gyda'i chymdogion yno i ffarwelio â hi. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Anita Ephraim, gyda'i mab Tomos yn ymgymerwr, a bu gwasanaeth i'r teulu yn unig ar lan y bedd ym mynwent Sant Mihangel. Cofion atoch.

**YR EGLWYS**

Braf gweld yn ddiweddar bod gwaith wedi dechrau ar adeilad Eglwys Sant Mihangel. Mi gawsom hanes y prynwr –Nigel Morris, gŵr busnes llwyddiannus sy'n byw yn yr Unol Daleithiau, ond sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal- yn rhifyn Medi 2019. Yma y ganed ac y magwyd mam Nigel Morris, sef y diweddar Catherine May Morris (Edwards cyn priodi).



Gresynai weld adeilad hardd yr Eglwys, sydd mor ganolog i'r gymuned a'n treftadaeth, yn dirywio ac mae wedi mynd ati i'w warchod gyda'r bwriad o'i ddatblygu'n adnodd ar gyfer y gymuned.

Ar hyn o bryd gwaith i adfer adeilad yr eglwys yw'r flaenoriaeth. Perthynas i Nigel Morris, sef Andrew Williams, sy'n goruchwylio'r prosiect a Ned Scharer o'r Ganolfan Adeiladu Naturiol yn Nyffryn Conwy sy'n ymgymeryd â'r gwaith. Dywed Ned y bydd gwarchod ac adfer yr adeilad yn cymryd cryn amser gan mai'r bwriad yw gwneud gwaith trylwyr yn hytrach na gwaith cyweirio dros dro. Y rhan gyntaf o'r gwaith yw rhwystro'r glaw rhag treiddio trwy'r waliau a'r to. Gaeaf diwetha roedd dŵr ar adegau yn tywallt i mewn trwy'r meini copa a'r waliau. Tros yr haf hwn bydd Ned yn glanhau allan yr hen fortar sment sy'n dal y gwlybaniaeth yn y waliau ac yn ail bwyntio gyda mortar calch traddodiadol sy'n galluogi'r waliau sychu. Esboniodd Ned ei fod am geisio atgynhyrchu'r dull o bwyntio gyda mortar calch a ddefnyddiwyd pan adeiladwyd yr eglwys yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hyn yn rhannol er mwyn bod yn driw i'r gwreiddiol ond hefyd er mwyn arbrofi a darganfod y cymysgedd mortar calch traddodiadol gorau ar gyfer defnydd ehangach i gyweirio tai ac adeiladau eraill yn lleol.

Bwriedir cynnig cyfleoedd i bobl dderbyn hyfforddiant mewn ystod o dechnegau adeiladu fwy traddodiadol a bydd adeilad yr eglwys yn ganolog i'r hyfforddiant. Ar sail yr hyfforddiant bydd modd creu arbenigedd ac adnoddau i fynd i'r afael â gwella'r stoc tai hŷn sy'n yr ardal hon a thu hwnt a hyn mewn modd sydd nid yn unig yn amgylcheddol effeithlon ond sydd hefyd yn gydnaws â'n treftadaeth bensaernïol gwerinol.


Am resymau cyfreithiol bu'n ofynnol rhoi enw newydd swyddogol ar yr eglwys ond enw dros dro yw hwn (Tŷ'r Wern) a chroesawir awgrymiadau am enw parhaol. Mae'r drafodaeth am ddefnydd tymor hir adeilad yr eglwys yn parhau ac mae Nigel Morris a'i deulu'n awyddus i dderbyn syniadau gan y gymuned ynglŷn â'r defnydd gorau o adeilad a fwriedir at ddefnydd y gymuned. Rhagwelir y bydd yr adeilad yn adnodd gwirioneddol werthfawr i'r ardal. Ymysg yr awgrymiadau sydd wedi codi sawl tro mae gofod perfformio hyblyg a chaffi ond mae'n bwysig bod pawb yn cael cyfle i gynnig syniadau. Er mwyn gwneud hyn cytunwyd bod Cwmni Bro Ffestiniog yn mynd ati i hwyluso'r drafodaeth ac i gasglu'r holl syniadau. Gofynnir i unrhyw un sydd â gweledigaeth, syniad neu sylw ar sut y gall y gymuned fanteisio ar y cyfle cynhyrfus hwn i gysylltu hefo'r Cwmni Bro, neu gyda Andrew Williams, neu gyda Ned Scharer ynglŷn â materion adeiladu ac hyfforddiant mewn dulliau adeiladu traddodiadol. Mae gan BroCast ddwy ffilm am y fenter: chwiliwch ar *YouTube* am 'Eglwys Llan'.

Ceri Cunnington, Cwmni Bro Ffestiniog. 07799353588 ceri.c@cwmnibro.cymru

# MANOD


Gohebydd: Marian Roberts (830840)

**Codi arian:**. Bore Gwener, Mehefin 19eg, ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru, bu Mali Grug a Cara-Non, Cae Clyd, yn dweud eu hanes yn codi arian at ymchwil cancr. Am saith diwrnod dros benblwydd Cara-Non yn wyth oed bu'r ddwy yn rhedeg rhwng un a dwy filltir y dydd – ymhob tywydd – o'u cartref i gyfeiriad Bryn Eithin gan gylchu'n ôl dros Bryn Glas. Llwyddasant i godi'r swm anrhydeddus o £720. Ardderchog wir genod.



**Cydymdeimlwn** â Glyn Evans, Gwawr ac Iorwen a'u teuluoedd ar farwolaeth Olwen, Bryn Eirian, Ffordd Manod ar Fehefin 4ydd.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Dilys Jones, Gwylfa, Cae Clyd, ar farwolaeth ei chwaer Maud Griffiths ar Fai 29ain yng nghartref Bodawen.



# TRAWSFYNYDD


Gohebydd: Elwen Jones (540432)


**Pen-gof Traws**

Wrth chwilio am rhywbeth arall mi ddois ar draws y bil yma (i Pant Mawr, Traws) gan fy hen-daid, Robert Owen, Pen-gof Traws a darlun o'r efail gan y diweddar Gwyn Thomas hefyd o'r Traws.

Mae erthygl "Peg Mochyn a Phedol" – mae atgofion fy Mam ohono ar gael ar wefan BBC Cymru http://www.bbc.co.uk/cymru/cyfoes/03peg.shtml

*Keith O'Brien*






**Rhannu Baich**

Yn wyneb yr argyfwng presennol oherwydd y feirws yma, a theuluoedd yn dibynnu fwyfwy ar adnoddau Banc Bwyd ardal Ffestiniog, roedd aelodau yng Nghapel y Fro yn Nhrawsfynydd ynghyd â'r Weinidogaeth Bro eisiau gwneud rhywbeth i liniaru'r gofid, a chynorthwyo y rhai sydd yn dioddef effaith economaidd yr epidemig. Gwnaed hynny trwy lythyr i bob un o drigolion pentref Trawsfynydd a'r Stesion yn apelio am gyfraniadau bwydydd neu arian i helpu storfa y Banc Bwyd yn Blaenau. Cafwyd cydweithrediad parod Siop Glyndwr yn y pentref a hefyd agorwyd cyntedd Capel Moreia bob dydd Llun rhwng 10 a 4 y pnawn i dderbyn y nwyddau. Roedd yr ymateb yn hynod ac mae angen diolch yn gyffredinol i holl drigolion y fro am eu haelioni caredig. Mae'r syniad o rannu baich fel hyn yn dangos ysbryd cymunedol cryf ac mae'n destun balchder i ni yn Nhrawsfynydd. Bu nifer o wirfoddolwyr ynghlwm â'r fenter yma, nifer dda yn bobl ifainc. Diolch i bawb a roddodd o'u hamser. Cant eu gwerthfawrogi yn fawr.




*Caryl a Ceri Jones, Richard, Bethan, Malen a Lleucu Owen*




*Glain Williams a Rhiannon*

## ATEB POS RHIF 1

**Faint ohonoch lwyddodd i gwblhau'r Pos Rhifau gan Gerallt Rhun, a ymddangosodd yn ein rhifyn digidol cyntaf yn Ebrill?**

**Cofiwch bod pob rhifyn digidol dal ar gael i'w lawrlwytho. Gobeithiwn fedru cynnwys pos rhif dau yn ein rhifyn papur nesa', ond yn y cyfamser, dyma'r ateb i bos rhif un.**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | A | W | Ng | Rh | N | Ch | F | Ll | U | D | L | P | E |
| **15** | **16** | **17** | **18** | **19** | **20** | **21** | **22** | **23** | **24** | **25** | **26** | **27** | **28** |
| B | Y | C | H | S | Ff | R | Th | G | Dd | T | I | M | Ph |

# BLAENAU

Gohebydd: June Williams (830037)

**Penblwydd Hapus** arbennig yn 75 i Mair Thomas ar y 10fed o Orffennaf, mam a mam yn nghyfraith Mai a Phil, Nia a Danny, Carol a Ger, Marian a Neil, Einir, Anna a David. Nain i Emlyn, Sioned, Dona, Daniel, Sera, Gari, Ffion, Ian, Josh, Elain, Efa a Cai. A hên nain i Trystan, Moli, Deion, Caio a Daniel Lee. Dathlu chydig yn wahanol ond gobeithio am haul i ddod i'r ardd i gyfarch xx

**Er cof** am ddau arbennig, sef ERIC HUGHES JONES a hunodd Gorffennaf 22ain 2019 ac ELINOR JONES ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn ystod y mis yma.

"Yn dawel hiraethwn, gyda chariad y cofiwn" oddi wrthym oll fel teulu. xx

**Llongyfarchiadau** i Helen a Medwyn, Llwyn Onn, Glanypwll, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ar Fehefin 5ed ganwyd merch fach – Nel Fflur – i Alan a Ffion. Pob dymuniad da i bawb.

**Graddio:** Llongyfarchiadau mawr i Branwen Enlli ar ennill gradd mor dda o Brifysgol Caerdydd. Er bod sefyllfa'r feirws wedi golygu diwedd rhyfedd i dair blynedd yn y brifddinas, mi gei gyfle i ddathlu'n iawn yn yr hydref gobeithio. Balch iawn ohonat. Mam, Dad, Lleucu a Beca X.

**Llongyfarchiadau** i Lleucu Gwenllian ar gael ei dewis yn un o'r 14 ar gynllyn Llwyddo'n Lleol Gwynedd a Môn 2020! Mi fuon nhw i gyd yn cyflwyno'u hunain a'u syniadau busnes yn eu milltir sgwâr, ar *facebook* ddechrau'r mis. Gallwch weld cyflwyniad Lleucu, a rhywfaint o'i gwaith celf ar @Lleucu_illustration.

**Sgotwrs Stiniog:** Dyma Alaw a'i chwaer fach Erin yn pysgota, ac Alaw wedi dal ei physgodyn cyntaf. Mi fysa ei hen daid Cecil Daniels yn falch iawn ohoni. Mae Alaw yn methu mynd a *Llafar Bro* o gwmpas i gymdogion Rhiwbryfdir ac yn edrych ymlaen i'ch gweld chi gyd yn fuan iawn.


*Alaw ac Erin yn mwynhau pysgota*

**Gwefan newydd:** Pob lwc i Elin Roberts, un o golofnwyr achlysurol *Llafar Bro*, a chyn enillydd Ysgoloriaeth Rawson, efo'i menter newydd, sef Latin America 101, gwefan fydd yn dod a newyddion a materion cyfoes o dde a chanolbarth America i'n sylw. Ewch am sbec – www.latin-america-101.com/

**Gŵyl-ar-y-we:** Er gwaetha'r siom o orfod canslo Gŵyl Car Gwyllt eleni, cafwyd blas ar y we ar nos Sadwrn cynta'r mis, o'r bandiau ddylia 'di bod yn chwarae, a phawb yn cyd-ddathlu'r gerddoriaeth efo diod bach yn eu cartrefi eu hunain. Medd y trefnwyr: "Bydda ni nôl flwyddyn nesa, gobeithio, yn gryfach ac yn fwy parod am y parti! Diolch i'r bandiau am greu fideos ar gyfer yr ŵyl-ar-y-we."

**Siop Esi**: Pob lwc i berchnogion newydd Siop Esi: Morwenna. Elin ac Eleri. Gwych gweld un o hen fusnesau lleol y Blaenau yn cael gwynt newydd eto. Dilynwch eu tudalen *facebook* newydd er mwyn cael y newyddion diweddaraf am eu cynlluniau i agor.




**Eisteddfod.** Yn Eisteddfod flynyddol Llanfrangoch – a gynhaliwyd eleni, am resymau amlwg, trwy'r post ac ar *Zoom* ar y we – enillwyd y wobr am wau pâr o fenyg gan Joan Edwards, Llys y Fedwen. Dywedodd y beirniaid, Mrs James Evans, fod dyfodol disglair i'r ferch hon yn y maes hwn, ac na welodd hi erioed gystal gwaith. Yr unig fai y medrodd ei ddarganfod ar ei gwaith gwych oedd ei bod wedi gwau dwy faneg chwith, a bod y fawd ar gefn y faneg yn un ohonynt. Arwahân i'r brychau hyn yr oedd y gwaith yn odidog drwyddo draw. Gofidia na buasai mwy nag un cystadleuydd wedi ymgeisio am y wobr, ond yr oedd yn dyfarnu'r wobr yn llawn i Miss Edwards, gyda chanmoliaeth uchel.

Diolchwn i Mr Samuel Edwards, tad y ferch fuddugol am yrru'r newyddion atom. Cyd-ddigwyddiad diddorol yw mai chwaer Mr Edwards, sef modryb i Jane, oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Edwards ar ennill yn yr adran lên efo cerdd yn cyfarch ei ferch. Roedd nifer sylweddol iawn o benillion, ac ni allwn atgynhyrchu'r cyfan o ddiffyg lle, ond dyma'r cyntaf ohonynt.

Ymlaen, O ferch, ymlaen, ymlaen,
I ennill mwy o wobrau,
A gwau *pullovers* grand eu gwedd,
A sannau twt eu sodlau;
Y mae athrylith yn dy law,
A medr yn dy fysedd,
O dal i fyny enw da
Dy deulu hyd y diwedd.

**Dawnsio a dathlu:** Llongyfarchiadau i Begw Williams, Stryd Brookland, ar dderbyn ysgoloriaeth i ysgol ddawns ryngwladol Llanberis. Mae hi'n edrych ymlaen yn arw i astudio'r ddawns fodern o dan yr enwog Madame Léise, os gaiff yr ysgol ail-agor, yn dilyn anghydfod hir a blin am gyflogau'r glanhawyr.

**Mwgwd mwngral:** Pob lwc i Dicw Bach Pentre Meini efo'i gwmni newydd sy'n creu masgiau Covid-19 yn arbennig ar gyfer cŵn a chathod yn y cyfnod anodd hwn. Llwyddodd i ddod i delerau am frethyn addas efo ffatri ddillad isa' Boyd yn y Bala, sydd wedi gweld cwymp aruthrol yn y galw am eu *y-fronts* yn dilyn poblogrwydd cân *Trôns Dy Dad*, gan Gwibdaith Hen Frân sy'n dilorni'r dilledyn hen-ffasiwn. Daw'r mygydau mewn patrwm tartan, draig goch, ac amrywiaeth o liwiau i warchod eich annwyl gyfeillion anwes.

**Cŵyn am y glo:** Y mae Mr Coke Pugh, un o'n gwerthwr glo lleol, yn bygwth cyfraith ar bwy bynnag sy'n meddio awgrymu mai yn chwarel y Fotty y mae'n cael ei lo. Ni bu erioed yn gwsmer i'r chwarel honno. O Chwarel yr Oakley y mae o'n cloddio'r cyfan o'i lo.

**Hyd buwch:** Mae cynrychiolwyr yr undebau amaeth yn lleol yn ystyried gwneud cŵyn ffurfiol i'r Senedd, wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi posteri am argyfwng Covid-19, sy'n cymharu'r 2 fetr sydd ei angen ar gyfer ymbellhau cymdeithasol diogel, efo hyd buwch. "*Efallai bod buwch tua dwy fetr o hyd*" meddai Wil Dwalad, Penmaen, "*ond diawch, does gen i mo'r amser i gario gwartheg 'nôl-a-mlaen at ddrws Coparet y Blaenau, er mwyn iddyn nhw gael dangos i'r bobol sy'n ciwio pa mor bell i sefyll oddi wrth eu gilydd.*" Mi ddown ni a diweddariad i chi y tro nesa, gan fod y Senedd yn son am ostwng yr hyd i un fetr. Mi fydd yn haws mynd a dafad 'nôl-a-mlaen, mi dybiwn...

# STOLPIA - STEFFAN AB OWAIN

### Atgofion am Greaduriaid Natur

Yr oedd byw a thyfu i fyny yn Rhiwbryfdir yn niwedd yr 1940au a'r 1950au yn addysg am fyd natur yn ei hun. Ymhlith y pethau cynharaf yr wyf yn ei gofio am greaduriaid ein cynefin y pryd hynny yw gweld ambell lygoden fawr, un neu ddau o lwynogod ac amrywiaeth o adar bach.

### Neidr ynteu llygoden?

Y cof cyntaf sydd gennyf o weld llygoden fawr oedd yn yr hen dŷ bach (toiled) ymhen draw yr ardd yn 2 Bryn Dinas pan roeddwn tua phedair, neu bum mlwydd oed. Sut bynnag, meddyliais yn wir mai neidr oedd hi, gan mai gweld ei chynffon yn ysgwyd yn ôl a blaen o dan sedd y toiled a wnes i ddechrau. Wedi mynd i'r tŷ dywedais wrth fy nhad bod neidr yn y closet, ond ar ôl iddo fynd draw yno a thynnu un pren o ochr y sedd, mi welais yr hen lygoden fawr yn ei sgrialu oddi yno am ei bywyd.



*Y fi a'r hen dŷ bach ar y dde*

Dro arall, gwelais glamp o lygoden fawr yn dod o ochr y cwt ieir yng ngwaelod yr ardd, ac yn cario rhywbeth fel gwelltyn yn ei cheg.Y tro hwnnw, mi es i nôl y gath o'r tŷ a'i rhoi ger y twll lle roeddwn wedi gweld y llygoden yn diflannu iddo, ond nid oedd gan yr hen gath fymryn o ddiddordeb yn y dasg o'i dal hi a cherdded yn ôl i'r tŷ a wnaeth.

### Carchar Llwynog

Cedwid ieir gan amryw o drigolion Rhiwbryfdir yn yr 1950au ac o dro i dro byddai yr hen Sion Blewyn Coch yn cymowta ac yn prowla o gylch y lle yn ystod y nos yn y gobaith o gael tamaid blasus.Wel, un bore, ac fel yr oeddwn yn codi o'm gwely, dyma fi'n clywed coblyn o glec fawr o ymyl Cae Joni (Cae Dolawel) a thu ôl i'r tai lein (Heol Glanypwll ) tros y ffordd. Ar ôl cyrraedd y drws ffrynt roedd amryw o'n cymdogion allan yn holi beth â oedd wedi digwydd. Er mwyn cael gwybod mwy aeth rhai ohonom i gefnau tai lein, ac yno gwelsom yn union beth oedd y rheswm am yr ergyd. Roedd llwynog wedi mynd yn sownd rhwng dwy grawen y ffens grawiau a fyddai yno, ac yn methu'n lan a dod yn rhydd. Roedd y creadur wedi ei garcharu rhyngddynt.Yn y cyfamser, roedd rhywun wedi galw am Llew Dwyryd, Neuadd Wen, a fyddai'n hela, ac roedd yntau wedi saethu'r llwynog yn gelain. Golygfa braidd yn ddychrynllyd oedd hi i ni'r plant y bore hwnnw.

### Gwennol Ddu yn mynychu'r oedfa

Dwy stori arall sy'n dod i'm cof, ond y tro hwn, y ddwy ohonynt am adar. Byddai gwenoliaid duon, jacdoeau, ac adar to yn nythu dan bondo Capel Rhiw pob gwanwyn, neu ddechrau'r haf , pan roeddem ni'n hogiau. Cofiaf i un wennol ddu, rywdro yn yr 1960au cynnar, weithio ei hun i mewn i'r capel ar ddydd Sul a phenderfynu hedfan ogylch y lle. Ceisiwyd ei dal gan rai o'r blaenoriaid cyn i oedfa'r hwyr ddechrau, ond roedd hi allan o'u cyrraedd, ac yn rhy gyflym iddynt o beth goblyn, ac felly, bu'n hedfan uwch ein pennau trwy'r oedfa, ac yn sgrech-wichian pob hyn a hyn. Ceisiodd y gweinidog gystadlu ei orau glas â'r wennol ddu a'i sŵn, ond rhywfodd, ni chredaf iddo lwyddo, gan i'r wennol ollwng anrheg o'i phen ôl a glaniodd hwnnw ar ysgwydd un o'r aelodau, ac wrth gwrs, aeth rhai ohonom i biffian chwerthin am y peth. Bu honno yn noswaith bythgofiadwy yn y capel i ni'r hogiau.

### Cyw Jac-do efo cof da

Cofiaf dro arall, a phan oeddem yn preswylio yn rhif 2 Dwyryd Teras yn yr 1960au – tŷ Albert heddiw – roeddwn yn cerdded i lawr heibio Capel Rhiw, ac o fewn dim tynnwyd fy sylw gan ddynes at gyw jac-do a oedd wedi syrthio o'i nyth yn uchel oddi ar ochr y capel. Gan ein bod ni'r hogiau yn bur dda gydag adar, ac amryw ohonom wedi cadw colomennod am sbelan go lew, gofynnwyd imi os gallwn wneud rhywbeth i helpu'r cyw druan. Gwelwn nad oedd y cyw yn ddigon tebol i hedfan yn ôl, a bron yn amhosib imi ei roi yn ôl yn y nyth gan ei fod mor uchel, daeth jaco adref gyda mi.

Edrychais ar ei ôl am ryw dair wythnos, ei fwydo a glanhau ei gratj, a cheiso ei gadw rhag gwneud sŵn tros y lle. Daeth yn ei flaen yn bur dda, ac er mwyn gweld os yr oedd wedi cryfhau digon cafodd ryddid i geiso hedfan yn yr atig. Bu wrthi yn hedfan am ychydig funudau yno a phenderfynais ei ollwng bore drannoeth, ac felly, mi es i a fo i ben uchaf yr ardd yng nghefn y tŷ a'i ryddhau. Chwifiodd ei adenydd a hedfan yn weddol uchel, ond yr hyn a synnwyd fi yn fwy na dim oedd ei weld yn anelu yn syth am Gapel Rhiw. Tybed sut oedd jaco yn cofio mai yn fanno oedd ei gartref ? Mae'n rhaid ei fod a chof da, 'doedd ?

*Cefnau tai'r lein a'r ffens grawiau, tai Bryn Dinas, Glandulyn a Chapel Rhiw (MC).*



# Rhod y Rhigymwr

IWAN MORGAN • GORFFENNAF 2020

Cefais anrheg difyr iawn y diwrnod o'r blaen … cyfrol ddiweddaraf y Dr Glenda Carr yn olrhain '***Hen Enwau o Feirionnydd**.*' Gwelwyd eisoes '***Hen Enwau o Gaernarfon, Llŷn ac Eifionydd***' a '***Hen Enwau Ynys Môn***' ganddi. Ar ôl ei chlywed yn sgwrsio efo Dei Tomos ar ei raglen nos Sul, roeddwn wedi nodi'r gyfrol ar ben y rhestr erbyn y tro nesaf i mi fynd i'r siop lyfrau leol, ond mae'n rhaid fod pâr o glustiau wedi fy nghlywed yn crybwyll hynny!

Rydw i wedi byw yn nalgylchoedd pob ysgol uwchradd ym Meirionnydd ar wahân i Benllyn, ond mae gen i gysylltiadau trwy briodas â'r rhan honno o'r sir hefyd. Mae'n gwbl naturiol felly mod gen i ddiddordeb mawr yn yr hen enwau yma. Mae sgyrsiau gwych Myrddin ap Dafydd am enwau lleoedd efo Aled Hughes ar *Radio Cymru* ar foreau dydd Mawrth hefyd wedi gwneud i mi sylweddoli ar y cyfoeth a feddiannwn fel cenedl.

Ymdrinia Glenda Carr â tharddiad sawl enw yn nalgylch '*Llafar Bro*.' Fel un sydd wedi byw yn hirach yng Nghwm Cynfal nag mewn unrhyw ran arall o Feirionnydd bellach, mae'r rhain o gryn ddiddordeb. Gan y dywedir i ddigwyddiadau *Pedwaredd Cainc y Mabinogi* gymryd lle yn y fro, a'n bod wedi cael ein trwytho yn hanes *Blodeuwedd*, y ferch a greodd *Gwydion y Dewin* o flodau'r maes yn wraig i *Lleu Llaw Gyffes*, mae'n naturiol inni gysylltu enwau'r annedd-dai yma â digwyddiadau'r chwedl.

Cymrwn '***Bryn Cyfergyd**,*' er enghraifft. Mae'r testun yn y *Mabinogi* yn adrodd fel y daeth *Gwydion* a *Lleu* i fryn '*a elwir weithion Brynn Kyuergyr*' ar lan '*afon Cynfael*.' Dywed Glenda Carr ei bod yn amlwg fod yna 'fryn' o'r enw '*Bryn Cyfergyr*' yn yr ardal pan adroddodd y cyfarwydd hanes *Lleu* i'w gynulleidfa rhyw dro yn yr Oesoedd Canol. Ar y llecyn yma y codwyd y tŷ a adwaenid fel '*Bryn Cyfergyd*' tua 1650.

Y cwestiwn mae'r awdur yn ei ofyn ydy pam newid '***cyfergyr***' yn '***cyfergyd***?' Ystyron '***cyfergyr**,*' yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru ydy '***ymladdfa***' a '***cynllwyn**.*' Fel yr aethpwyd ati i gysylltu '*Bryn Cyfergyd*' efo ergyd y waywffon a darawodd *Gronw Pebr* yn y chwedl, mae'n debyg bod '***ergyr***' wedi troi yn '***ergyd**.*' Daeth y gair '*cyfergyd*' am 'concussion' yn un a ddefnyddir yn gyson gan sylwebyddion rygbi ar S4C yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Fel y gwyddom, mae'r ardal yn frith o enwau sy'n gysylltiedig â'r Bedwaredd Cainc. Cawn hefyd '*Bryn Llech*', '*Bryn Saeth*', '*Llech Ronw*', '*Mur Castell*' [*'Tomen y Mur'*] ac yn y blaen. Ond mae enw un lle cyfagos i'm cartref wedi bod yn ddirgelwch i mi ers yr holl flynyddoedd rydw i wedi byw yma, a hwnnw ydy '***Bodlosged***' neu '***Bodllosged**.*'

Yn ôl cyfrol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru' … '***Darganfod Tai Hanesyddol Eryri' … prosiect dyddio blwydd-gylchau Gogledd Orllewin Cymru*** [*Suggett a Dunn, Aberystwyth 2014*], ceir tystiolaeth ar gyfer yr enw '***Botlosked***' mor bell yn ôl â 1292-3. Mae'n debyg mai tŷ o'r unfed ganrif ar bymtheg ydy'r un presennol, a nodir bod yr ystyr yn aneglur a'r sillafu'n amrywiol.

Fe'n harweiniwyd ni'r trigolion lleol i gredu mai '**bod loes y gad**' oedd yr ystyr, a dyma'r enw amheus sydd '*wedi ei fathu'n fwriadol*' yn ôl Glenda Carr, a hynny '*er mwyn rhoi rhyw naws hanesyddol a ffug i'r lle*.' Mae hi'n ymwrthod â'r '*eglurhad chwerthinllyd*' sy'n cysylltu'r '*loes*' â'r hyn a ddioddefodd *Gronw Pebr* pan drawyd ef â gwaywffon *Lleu Llaw Gyffes*.

Cyfaddefa fod yr enw yn un anodd canfod ystyr iddo, ond noda i'r Athro Melville Richards weld cysylltiad rhyngddo â '***golosg***' [*'charcoal'*], neu '***golosged***' … hen air am rywbeth sydd wedi ei losgi. Hwyrach fod '*golosg*' wedi cael ei losgi yno rhywbryd, neu, fe allai'r lle fod wedi mynd ar dân mewn rhyw oes.

Gan mai ymwneud â barddoniaeth y mae fy ngholofn, trof i gloi at hanes rhai o fân-deuluoedd bonheddig yr ardal oedd yn '*noddi*' beirdd 'slawer dydd. Arferai teuluoedd *Hendre'r Mur, Tyddyn Du a Chynfal* ym mhlwyf Maentwrog, *Pengwern, Dôl-y-moch* a *Than-y-bwlch* ym mhlwyf Ffestiniog a *Bryn-hir, Cefn-deuddwr* a *Gelli-iorwerth* ym mhlwyf Trawsfynydd noddi rhai o'r beirdd a ganai glodydd iddynt.

Disgynyddion Dafydd ap Ieuan ab Einion, cwnstabl Castell Harlech adeg *Rhyfeloedd y Rhosynnau [1455-85]* fu'n noddi'r beirdd ym **Mhengwern**. Fe ganodd William Cynwal, a fu'n ymryson ag Edmwnd Prys [1544-1623] i Siôn Lewis ab Ifan:

*'Cur ŵyr o awch, carw aur og,*
*Corff ais dawn, caer Ffestiniog;*
*Dwys gadarn mewn dysg ydwyd,*
*Distaw a sad ustus wyd …*
*Ifor Hael y fro hon …'*

A gwraig Siôn, oedd yn gyfrifol am y croesawu:

*'Gwaith Gwen Llwyd, rhoi bwyd a bîr,*
*Gwiriai glod ac aur i glêr …'*

Atgyweiriwyd **Dôl-y-moch** gan Siôn Siôns ym 1643, a chanodd Gruffydd Phylip [*un o Phylipiaid Ardudwy*] gywydd i nodi'r achlysur:
*'Hynod adail nodedig,*
*Rasol brif o'r sail i'r brig,*
*Ym mro enwog Meirionnydd,*
*Adail Siôn yn nodol sydd …'*

Roedd i gerdd dafod a cherdd dant le amlwg yno:

*'Cerdd dafod, myfyrdod maith,*
*Cerdd fiwsig cwyraidd fwyswaith.'*

Mae'r englyn canlynol i Huw Llwyd, y milwr lliwgar o Gynfal oedd fyw rhwng tua 1568 a 1630 yn un tra enwog. Ei awdur ydy Huw ap Ieuan:

*'Holl gampiau doniau a dynnwyd – o'n tir,*
*Maentwrog a 'sbeiliwyd;*
*Ni chleddir ac ni chladdwyd*
*Fyth i'w llawr mo fath Huw Llwyd.'*

Mae Siop Lyfrau'r Hen Bost wedi ail-agor … bydd Elin yno i'ch croesawu yn ei het werdd a'i mwgwd plastig … ewch yno i brynu cyfrol Glenda Carr … ***'Hen Enwau o Feirionnydd'** [**Gwasg y Bwthyn**] …* **£10.95**. Ac os oes gennych **£30**, byddai'n werth prynu ***'Darganfod Tai Hanesyddol Eryri'*** efo'r pres petrol a ballu rydych wedi ei arbed yn ystod y misoedd dwytha!

Parhewch i gadw'n iach a diogel!

***IM***



*Bodlosged, Cwm Cynfal*

# HEN LUNIAU RHEILFFYRDD LLEOL




Dyma lun o hen orsaf Rheilffordd Ffestiniog yng Nglanypwll yn ei hanterth, gyda chanopi dros y platfform i warchod teithwyr boed weithwyr, ymwelwyr neu ddefnyddwyr eraill rhag y tywydd.

Dim ond lled ffordd sydd rhyngddi a gorsaf lein Dyffryn Conwy y *London & North Western Railway* (L.M.S. ar ôl grwpio'r cwmnïau yn 1921). Gwelir rhannau o'r orsaf honno yn y cefndir, yn uchel ar y dde.

Mae injan 'Fairlie' dau-fwyler yno, yn barod i dynnu trên am weddill y daith o Borthmadog i'r Blaenau, gan alw nesaf yn y gyfnewidfa â rheilffordd y *Great Western*. Yn y llun arall gwelir grŵp teuluol yn cychwyn ar eu taith oddi yno yn 1937 i ymweld â ffrindiau yn y Dduallt ar ôl disgyn o'r trên yn Rhoslyn a cherdded weddill y daith i'r tŷ.

Ar un adeg gorsaf Duffws oedd terfynfa Rheilffordd Ffestiniog yn y dref, lle byddai llechi'n dod i lawr o'r chwareli ar hyd dwy inclên cyn cael eu cludo oddi yno i borthladd Porthmadog. Y cyfan sydd ar ôl o'r orsaf heddiw yw'r adeilad a drowyd yn doiledau cyhoeddus. Ond 'Duffws' (neu Diffwys erbyn heddiw wrth gwrs. Gol) yw enw'r maes parcio.

Daeth gwasanaeth Rheilffordd Ffestiniog i deithwyr i ben yn sydyn ar ddechrau rhyfel 1939-45 er gwaethaf addewidion hyderus y posteri am deithiau drwy '*13½ Miles of Enchanting Scenery*' *ar y 'Festiniog [sic] Toy Railway ... Gauge 1 ft. 11½ ins.'*.

Fel y gŵyr darllenwyr *Llafar Bro*, mae gorsafoedd y *London & North Western* a chyfnewidfa Rheilffordd Ffestiniog â'r *Great Western* wedi hen ddiflannu. Dyna dynged gorsaf Glanypwll yn ogystal. Ond mae'r gyfnewidfa newydd ger safle hen orsaf y *Great Western* yn gwasanaethu lein Dyffryn Conwy a threnau cwmni newydd Rheilffordd Ffestiniog.

Gwelir llu o luniau o hen orsafoedd y Blaenau ac o injans stêm yn y ddau lyfr: *A Regional History of the Railways of Great Britain, Volume 11: North and Mid Wales* gan Peter Baughan a *Festiniog* [sic] *Railway Revival* gan P.B. Whitehouse. Mae llyfr Whitehouse yn cynnwys map manwl o hen reilffyrdd y fro – cul a mesur-safonol.

Gobeithio bydd darllenwyr *Llafar Bro* yn maddau i un a fagwyd yng nghymoedd glofaol y de am beidio â defnyddio geiriau sydd ar lafar yn lleol megis 'Stesion Fain'. Ond o leiaf, 'trên bach Port' rydw i wedi dweud erioed, a'm taid yn hanu o Benrhyndeudraeth ond a fu'n byw yn Aberfan am flynyddoedd. 'John Lloyd Sowth' bydden nhw yn ei alw ar ei ymweliadau achlysurol â'i fro enedigol.

***Philip Lloyd***



## Y Siarabang slawer dydd (Station Road Llan) gan GVJ



## Llanfrangoch, Stryd Brookland a Phentre Meini

Mae nifer ohonoch dwi'n siŵr, wedi'i dallt hi, ac wedi gweld fy mod i wedi sleifio ambell ddarn o rwdlian llwyr ymysg y newyddion cymunedol. Dynwared campau John Ellis Williams a Moi Plas oeddwn i, ac mae rhai o'r darnau ffug wedi eu haddasu o'u gwaith nhw yn Rhedegydd y 1950au. Roedden nhw'n ceisio ysgogi trafodaeth a bwrlwm am bentref Llanfrangoch – nad oedd neb yn gwybod lle'r oedd o – pan oedd gwerthiant y papur yn gostwng. Gobeithio bod y darnau wedi codi gwên. Maen nhw wedi llenwi cornel yn y silly season soniais amdano yn *'Smit Newyddion' ar dudalen 2*! A phwy a ŵyr na fydd rhywfaint o hanesion Llanfrangoch yn ymddangos o dro i dro yn y dyfodol hefyd! ***PW***

Iaith ’Stiniog III

# Yn ôl i’r Chwareli....

**ENID ROBERTS a BRUCE GRIFFITHS**

Hwrê! Yn dilyn fy nhruth am iaith y chwareli, dyma gyfraniad diddan ar y pwnc gan ein cymdoges annwyl, Enid Roberts (gynt o Gae Clyd!):

“... ’Roedd y creigwyr yn gwisgo trowsus ffustion am ei fod yn llawer gwell defnydd iddynt pan oeddent yn gwisgo’r cadwyni. Gan fod y defnydd yn olau iawn, bron yn wyn, rhaid oedd gwisgo *London Yorks* o dan y pen-glin i gadw’r trowsus allan o’r mwd a’r baw. Hefyd rhaid oedd iro’r esgidiau â dwbin i’w cadw’n feddal.

**“Robin Jolly:** Robin Griffith oedd ei enw, ’roedd yn byw gyda’i chwaer. Dyn bychan gyda mwstash bach twt. Adroddai benodau o’r Beibl o’i gof. Byddai bob amser yn llawn hiwmor. ’Rwy’n cofio tad Geraint (Wyn Jones), [sef Iorwerth y Gof – B.G.] yn dweud ei hanes aml i dro. Unwaith ’roedd blaenor o’r capel yn gweld Robin efo bocs mawr. ‘Be’ sydd gen ti yn y bocs ’na, Robin?’ meddai. ‘Mwnci’ meddai Robin ‘ac mae lle i un arall ynddo hefyd’. Roedd yn gymeriad hoffus fel ’rwy’n deall, reit ddiniwed. Byddai’n hoffi canu i’r plant.

“Yn yr Oakley ’roedd hefyd *melin fflags* lle ’roeddynt yn trin yr is-gynnyrch i wneud llechi i’r ysgolion, fflags stepiau a cherrig beddau.

“Mae’r diweddar Gwyn Thomas yn sôn yn ei ddarlith Fainc ’Sglodion. *Mannau yn y Blaenau*, am iaith y chwareli: *inclên, criwliwr, crimpio, jermon, clespyn, cowjian, riglwr, cŷn tewio, p’leru a p’leriad, clust wagan, troedio morthwyl, corddi twll, jympar, diddosi agor, hegal craen*. Erthygl arall, Bruce! Diolch, Enid.

Mawr ddiolch i ti, Enid! Eithriad prin ydy’ cael unrhyw ymateb i’m sylwadau. Sut na fuaswn i wedi cofio edrych ar ddarlith Gwyn, fy nghyfyrder! Clywais fod siop lyfrau’r Hen Bost wedi ail-agor, diolch byth, felly heidiwch yno i gael copi ohoni. Rhaid bod eraill acw sy’n fwy gwybodus am y pwnc na fi, rhowch bin ar bapur, peidiwch â bod yn swil!

Troais at lyfr Steffan (ab Owain), *Pen-Blwydd Mwnci, Gogyrogo a Char Gwyllt, Geiriau a Dywediadau Diddorol* (Carreg Gwalch, 2016). Casgliad difyr dros ben, ac oes, mae ’na adran ar Amaeth, diwydiant a chrefft. (Nid llyfr o iaith ’Stiniog yn unig mohono, gyda llaw: ond holwch amdano yn siop yr Hen Bost!) Ceir llond tudalen am y *car gwyllt*, gyda llun da o chwarelwr yn eistedd ar un. Rhestrir *hwrdd, jacob, megryn, milgi, pharo, tolyn, tew mastiff, tew llau*, fel termau, gyda diffiniadau, o chwareli ’Stiniog. Gallasai’r rhestr fod yn llawer hwy,ond ymataliodd Steffan rhag cynnwys termau a geid eisoes mewn print: cyfeiria at rifyn 1966 o’r *Caban*, ac at restr Emyr Jones yn y BBGC (*Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*) (1961). ’Does yr un o’r rhain gennyf, a bydd raid imi chwilota am y BBGC. Os ydy’r Caban gan rywun, da fyddai cael ysgrif ar ei gynnwys. A’r tro nesaf, os byw ac iach, be’ ga’i’n bwnc i fwydro yn ei gylch? Glawogydd ’Stiniog?’ Erbyn hynny, pwy a ŵyr na fyddwch yn gweddïo amdanynt!

ydrefwerdd

CYFLWYNO STAFF NEWYDD I’R

# Dref Werdd

Efallai eich bod yn cofio yn rhifyn diwethaf *Llafar Bro* roedd Y Dref Werdd yn chwilio am weithwyr newydd i brosiect sydd am fod yn ymateb i argyfwng Covid-19 ac yn cefnogi pobl o fewn cymunedau Bro Ffestiniog, Dolwyddelan, Penrhyndeudraeth a’r cylch. Wel, mae’n bleser gennyf i gyhoeddi’r tri newydd a fydd yn ymuno a’r tîm yn yr wythnosau nesaf.

Mae Non Roberts, sydd wedi gweithio i’r Dref Werdd am gyfnod o’r blaen, wedi ei phenodi fel Cydlynydd Gwirfoddolwyr i ardal Bro Ffestiniog a Dolwyddelan. Mae Non yn ail ymuno â’r tîm yn dilyn cyfnod o weithio yn Ysgol Bro Hedd Wyn, croeso ‘nôl Non!

Rydym hefyd wedi penodi Lauren Hill o Lanfrothen fel ein Cydlynydd Gwirfoddolwyr i ardal Penrhyndeudraeth a’r cylch. Mae Lauren yn ymuno gyda ni o’i swydd diweddar gyda’r ddeintyddfa ym Mhenrhyn ac wedi gweithio dramor am gyfnod fel rheolwr yn ardal Chamonix yn Ffrainc ac hefyd yn fwy diweddar, wedi sefydlu busnes ei hun fel hyfforddwr ‘pilates’.

Bydd Nina Bentley hefyd yn ymuno gyda ni fel Gweithiwr Ymgysylltu Cymunedol rhan amser. Mae Nina eisioes wedi gwirfoddoli ei hamser i’r Dref Werdd wrth gasglu llawer iawn o sbwriel o amgylch Blaenau a Thanygrisiau ac wedi sefydlu’r grŵp Balchder Bro gyda chefnogaeth y Dref Werdd. Wedi symud i’r ardal, mae Nina wedi dysgu siarad Cymraeg ac yn frwdfrydig am yr iaith cymaint ag y mae gyda gwaith amgylcheddol y fro.

Rôl y tair ohonynt fydd i recriwtio a chyd-weithio gyda gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau cefnogaeth i unigolion a theuluoedd sydd yn fregus neu yn hunan ynysu trwy ddatblygu sawl prosiect, a fydd yn cynnwys cynllun cyfeillio dros y ffôn i bobl sydd efallai yn unig, datblygu prosiect benthyca tabledi digidol i’r sawl sydd ddim fel arfer yn defnyddio technoleg, cefnogi banc bwyd y Blaenau a sefydlu un newydd ym Mhenrhyndeudraeth a llawer iawn mwy.
Bydd Non a Lauren yn cychwyn eu swyddi gyda ni ar y 13eg o Orffennaf a Nina wedi cychwyn ar 29ain o Fehefin. Gallwch gysylltu gydag unrhyw un ohonynt ar y cyfeiriadau isod:

**non@drefwerdd.cymru** **lauren@drefwerdd.cymru** **nina@drefwerdd.cymru**

Y pedwerydd person rydan wedi penodi ydi Tanwen Roberts. Bydd llawer iawn ohonoch yn adnabod Tanwen ers ei hamser yn gweithio yng nghaffi Antur Stiniog, a rydan ni wedi ei phenodi i reoli ein menter newydd, sef siop di-wastraff a fydd yn cael ei lleoli yn 12A Stryd yr Eglwys. Enw’r siop fydd Y Siop Werdd (diolch i Carwyn am ganiatâu i ni ddefnyddio’r enw) a bwriad y fenter yma ydi i werthu cynnyrch am brisiau rhesymol, ond hefyd i bobl allu prynu hynny y maent yn gallu fforddio. Bydd y siop hefyd yn cyd-weithio’n agos gyda’r banc bwyd, yn ogystal a’r holl fentrau eraill sydd eisioes yn gweithio yn yr ardal.

Y gobaith yw bydd y siop yn agor ei drysau o fewn 2-3 mis unwaith bydd y gwaith o’i gosod fyny yn cael ei wneud. Os hoffech chi wybod mwy am y fenter, gallwch gysylltu efo Tanwen ar ei chyfeiriad ebost **tanwen@drefwerdd.cymru**

*Gwydion ap Wynn*

**banc bwyd blaenau**
food for ffestiniog

Diweddariad Feirws: Mae'r banc bwyd ar agor rŵan bob dydd (Llun – Gwener), rhwng 2yp a 3yp.

- Bydd mesurau newydd mewn lle i amddiffyn y gwirfoddolwyr, a bydd rhaid i – bob un ddilyn rhain.
- Dim ond un person o’r teulu i ddod i nôl pecyn; dim plant os yn bosib.
- Os ydych yn hunan ynysu ac angen danfoniad i'r tŷ, cysylltwch ar **07435 290553**

## Inclên a thŷ rheolwr Chwarel Maenofferen
gan GVJ



# Cysylltiad Dalgylch 'Llafar Bro' ag America - W. ARVON ROBERTS


Cafodd dinas Johnstown, Sir Cambria, Pennsylfania, ei henwi ar ôl Joseph Johns, brodor o'r Swisdir, a ddaeth i'r America yn 1769 yn 10 mlwydd oed. Datblygodd yn gyflym fel tref, ac erbyn yr 1870au yr oedd ynddi filoedd o drigolion o wahanol genhedloedd. Cododd y pedwar enwad ymneilltuol gapeli yno rhwng 1852 ac 1920, chwech o gapeli i gyd. Dibynai Johnstown yn bennaf ar y gweithfeydd haearn a glo mawr oedd o'i hamgylch. Ar brynhawn Mai 30, 1889, yn dilyn seremoniy Dydd Coffa blynyddol, dechreuodd wlawio yn y dyffryn. Torrodd argae South Fork oedd yn dal 20 miliwn tunnell o ddŵr a dinistriodd Johnstown mewn llai na 10 munud. Allan o boblogaeth o tua 30,000, collodd o leiaf 2,200 o bobl eu bywydau yn y ddinistr, rhai ohonynt yn Gymry. Yr oedd y boblogaeth Gymraeg yn Johnstown a'r cyffiniau yn 2,376 y flwyddyn honno. Deil y ddinas i gynhyrchu haearn a dur hyd heddiw.


Un o ddinasyddion mwyaf blaenllaw Johnstown yn nechrau yr ugeinfed ganrif oedd David Robert Evans ('Berwyn'), athro yn y Coleg Cerdd yno. Ganwyd ef yn Carrog, ger Corwen, yn 1882. Mynychodd D.R. Evans Ysgol y Bwrdd, Blaenau Ffestiniog pan oedd y teulu yn byw yn Summerhill, yn ôl cyfrifiad 1891). Ei ymdrechion cerddorol cyntaf oedd astudio'r delyn o dan Robert Jones, Telynor Tegid (1833-1905). Yn ddiweddarach bu D.R. Evans yn astudio diwylliant llais a'r gelf o ganu o dan y Proffeswyr. David Parry a T. Amos Jones. Bu Proff. Jones yn athro hefyd ar Ted Lloyd (1876-1943), Rochester ac Utica, Efrog Newydd (perthynas i un o ohebwyr ffyddlon *Llafar Bro*, sef Mrs Nesta Evans, Llan Ffestiniog).

Yn 1910 ymfudodd David R. Evans i Pittsburgh, Pennsylfania – y "Ddinas Ddur" fel y'i gelwir. Ymhen pedair blynedd ar ôl hynny, yn 32 mlwydd oed, yn Cambria, Pennsylfania, priododd a Dora Emeline Cober merch o dras Almaenig. Yn 1914, bu am gyfnod yn Oakland, Califfornia, yn astudio cerddoriaeth o dan Otto Fleisner, sef ei gyfeilydd yn ddiweddarach pan enillodd D.R. Evans y gystadleuaeth tenor solo yn yr Arddangosfa Rhyngwladol Panama-Pacific, yn San Francisco yn 1915.

Am ddau ddiwrnod adeg yr Eisteddfod yn yr Arddangosfa Rhyngwladol bu'n unawdydd gwadd, un i gyfeiliant y delyn, a dwy waith i gyfeiliant piano ar y Diwrnod Cymraeg yno. Bu'n athro llais yn ei stiwdio yn Johnstown ers Gorffennaf, 1910.

Am saith mlynedd bu'n unawdydd yn Eglwys Cyntaf y Brodyr yn Johnstown. Gwrthsafodd yr eglwys honno gorlif trychinebus 1889 ond ar Ddydd Sant Padrig, 1936, dioddefodd gryn niwed iddi mewn gorlif arall. Yr oedd yn aelod o Eglwys Presbyteraidd Cymraeg (1854-1928), Johnstown, yn aelod o'r côr, ac yn arweinydd y gân yno am saith mlynedd. Bu hefyd yn athro Ysgol Sul ar ddosbarth o oedolion. Yn 1913 cafodd ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd Americanaidd (ei ffug enw oedd 'Berwyn') gan yr Archdderwydd Dyfed, adeg y cynhaliwyd yr Eisteddfod Rhyngwladol yn Pittsburgh. Yn 1914 ymwelodd ef a'i briod â Chymru a Llundain, a cymerodd ran yn seremoni y cadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn yr un flwyddyn. Dychwelont i'r Unol Daleithiau diwedd Awst, ychydig ar ôl dechreuad y Rhyfel Byd Cyntaf.




Yn 1915 daeth 'Berwyn' yn gaffaeliad gwerthfawr yn y cylch Cymraeg ar Lannau'r Tawelfor pan sicrhawyd lle iddo fel unawdwr yn eglwys fawr y Presbyteriaid Cyntaf yn San Francisco, yn cyd ganu a'r enwog Godfrey Price; a hefyd yn Oakland, Califfornia. Ar Gorffennaf 7fed, 1915, o ddau hyd bump o'r gloch, cynhaliwyd picnic Ysgolion Sul undebol Oakland a San Francisco, yng Ngerddi yr Arddangosfa Fawr, pryd y cymerwyd rhan ymysg eraill gan 'Berwyn'. Dewisodd y gan, '*O na byddai'n haf o hyd*' a chanodd gyda nerth ac arddeliad. Enillodd $50 yn Eisteddfod San Francisco, 1915, ar yr unawd tenor 'On away, awake beloved'.

Gorffennaf 19, 1919, cynhgaliodd Cymdeithas Gymraeg Cleveland, Ohio, ei 11fed aduniad yn Mharc Euclid Beach, unwaith eto yr oedd 'Berwyn' yn un o'r rhai a gymerodd ran. Ei ddewisiad oedd '*Bedd y Morwr*' ac yna '*Hen Wlad Fy Nhadau*' ar ddiwedd y cyfarfod. Mehefin 7, 1919, yn Pittsburgh, Pensylfania, cymerodd ran yng nghyfarfod blynyddol cyntaf yr Orsedd Gymraeg yn yr Unol Daleithiau. Bu farw Medi 28, 1942, yn 60 mlwydd oed, yn Ysbyty Coffa Dyffryn Conemaugh, Johnstown, a'i gladdu yn Mynwent Grandview, Johnstown, lle claddwyd nifer fawr o'r rhai a gollwyd yng Ngorlif 1889.

## Cornel Liwio

Maen nhw'n dweud fod lliwio yn ffordd dda o ymlacio ac o leddfu poenau'r byd, felly nid i blant yn unig mae hwn! Argraffwch gopi a mwynhewch ei liwio neu ei baentio yn lliwiau'r enfys, neu fel y mynnoch. Os ydych chi neu eich plant yn gwneud hynny, cofiwch rannu efo ni ac mi rown eich campweithiau ar ein tudalen facebook. Diolch eto i Lleucu Gwenllian (@lleucu_illustration ar Instagram) am ddarparu'r llun hyfryd 'Tra Bo Dau' y mis hwn.



# CHWARAEON



## Clwb Pêl-droed Amaturiaid y Blaenau

Llongyfarchiadu enfawr i'r clwb ar lwyddo i gael trwydded gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru i chwarae yn haen 3 yr adrannau Cymreig, a hynny tra'n dathlu 40 mlynedd ers creu y clwb! Daeth y newyddion da yn dilyn ymdrechion arbennig iawn gan swyddogion, chwaraewyr, a chefnogwyr y clwb dros yr wythnosau dwytha, i wella'r cyfleusterau yng Nghae Clyd yn ôl safonau caeth iawn y Gymdeithas, a hynny er gwaethaf cyfyngiadau covid-19.

Mae'r gwaith wedi cynnwys ail-wampio llawr, gosod cant o seddi, a thorri 'ffenestri' newydd yn yr eisteddle; gosod system sain; gwella'r ystafelloedd newid; darparu toiledau newydd; ac adeiladu llwybr goncrid o amgylch y cae, efo canllaw newydd. Ewch i dudalen *facebook* y clwb i weld y lluniau i gyd.



Y cam nesa rwan ydi aros i glywed gan y Gymdeithas ym mha gynghrair fydd y clwb yn chwarae o dan y trefniadau newydd o'r tymor nesa' ymlaen. Disgwylir cael clywed erbyn Gorffennaf y 10fed.

Y newyddion da ydi bod Ceri Roberts wedi cytuno i aros fel rheolwr y clwb, a Geraint Owen a Mel Roberts fel is-reolwyr hefyd, ynghyd â nifer o'r chwaraewyr sydd wedi cytuno i arwyddo eto. Mae'r prif sgoriwr Meilir Williams wedi cael cyfle gwych i chwarae mewn adran uwch efo Conwy, ac mae pawb yn y clwb yn dymuno'n dda iddo. Bydd croeso mawr iddo yn ôl ar unrhyw adeg wrth gwrs.



Cofiwch bod y clwb yn chwilio am noddwyr ar gyfer y tymor newydd. Mae pob math o gyfleoedd i chi gyfrannu at y clwb: trwy noddi sedd yn yr eisteddle, i noddi crysau ymarfer, a chotiau'r tîm rheoli, ac ati. Cysylltwch am fwy o wybodaeth.

Yn fwy na dim, mae'r clwb yn edrych ymlaen i fedru ail-afael yn y chwarae, pan fydd yn saff i wneud hynny, ac yn edrych ymlaen yn arbennig i'ch croesawu chi i gyd i weld y cyfleusterau newydd a'r chwarae ar Gae Clyd y tymor nesa.



*Ydych chi'n nabod y dynion ifanc yma?! Dyma ddau lun o flynyddoedd cynnar y clwb. Rheolwr y tîm oedd cyn-chwaraewr Bolton Wanderers, Gwilym Roberts, sydd hefyd yn Daid i reolwr presennol y clwb, Ceri! (Lluniau gan Andrew Roberts a Mel Thomas)*

## Rygbi

Diolch Brenin o Glwb Rygbi Bro am yrru'r llun gwych yma i mewn, ac i Gareth Evans y ffotograffydd am ganiatâd i'w gyhoeddi. Mae'r cae yn edrych yn wych tydi, ond mae'r lleoliad yn drawiadol iawn hefyd, efo Craig Nyth y Gigfran, Carreg Flaenllym a Phen y Foel, yr Allt Fawr, a Thomen Fawr yr Oclis yn edrych yn arbennig dan awyr las clir.

Dwi'n siŵr fod pawb yn y clwb yn edrych ymlaen at gael dychwelyd at y chwarae a'r cymdeithasu eto, pan fydd y sefyllfa'n caniatâu.

